# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

NJS Dental

Dyddiad yr arolygiad: 9 Ebrill 2018

Dyddiad cyhoeddi: 10 Gorffennaf 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78937-585-5



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5
2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6
3. Yr hyn a ganfuom ........ 7

   Ansawdd profiad y claf ........ 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 19

4. Beth nesaf? ........ 22
5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 23

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .24

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 25

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 26

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o NJS Dental yn 79 Water Street, Caerfyrddin SA31 1PZ ar 9 Ebrill 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y staff yn NJS Dental yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf a gwelsom fod y staff yn gyfeillgar ac yn broffesiynol tuag at gleifion yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda, ac roedd gan y practis y polisïau a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith er mwyn cefnogi'r practis, y cleifion a'r staff.

Mae angen i'r practis sicrhau ei fod yn storio cyffuriau a chyfarpar brys gyda'i gilydd.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd rhyngweithio staff â chleifion yn broffesiynol ac yn gwrtais
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel a chafodd y dull o reoli'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ei ganmol
- Roedd gan y practis ystod dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Pob aelod o staff i gwblhau hyfforddiant diogelu oedolion a phlant priodol
- Rhaid cadw cofnodion cleifion yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Practis deintyddol preifat yn unig yw NJS Dental.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, un hylenydd, dwy nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, un derbynnydd a dau reolwr practis.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod y practis wedi ymrwymo i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.

Roedd y practis yn chwilio am adborth gan gleifion trwy gofnodi unrhyw sylwadau ar lafar ac yn eu gwahodd i gyflwyno awgrymiadau sy'n cael eu casglu a'u trafod mewn cyfarfodydd practis.

Mae angen i'r practis ddiweddaru ei bolisi cwynion ar ei wefan.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 27 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *Rwy'n hapus iawn gyda'r practis.* Maent wedi darparu gwasanaeth ardderchog i fi a fy mhlant.
>
> Rwy'n berson nerfus iawn. Mae pawb yn fy nhrin yn dda iawn yma ac yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus.
>
> *Practis deintyddol proffesiynol iawn sy'n cael ei redeg yn dda.*

### Cadw'n iach

Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Yn yr ardal aros ac yn ystafell driniaeth yr hylenydd, gwelsom fod detholiad o daflenni ar gael, yn cynnig gwybodaeth am driniaethau a ddarperir gan y practis. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

### Gofal ag urddas

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Dywedwyd wrthym gan staff, pe bai angen cael sgwrs breifat neu sgwrs dros y ffôn gyda chlaf, gellid cynnal hyn yn y swyddfa wrth ymyl yr ystafell aros, gan gynnal cyfrinachedd cleifion. Os oedd yr ystafell honno'n cael ei defnyddio, gallai staff ddefnyddio swyddfa rheolwr y practis ar y llawr cyntaf.

Roedd gan y dair ystafell triniaeth ddeintyddol ddrysau y gwnaethom nodi yn ystod yr arolygiad eu bod ar gau pan oedd claf yn derbyn triniaeth

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu (cymaint ag yr oeddent eisiau) at unrhyw benderfyniadau a wneir am eu triniaeth a'u bod wedi derbyn gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth sydd ar gael.

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn deall sut y cyfrifwyd cost eu triniaeth.

Ar adeg yr arolygiad, gwelsom restr brisiau yn nodi costau triniaeth ddeintyddol breifat a oedd yn cael ei harddangos yn y dderbynfa ac wedi'i chynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd ar gael yn yr ardal aros.

Roedd gwybodaeth am oriau agor y practis a manylion y deintyddion yn cael eu harddangos yn ffenestr y ddeintyddfa ac yn weladwy o'r stryd.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron a oeddent yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Dywedodd deg o gleifion eu bod yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Dywedodd cleifion a oedd wedi cwblhau holiadur wrthym eu bod bob amser yn medru siarad â staff yn eu dewis iaith; roedd hyn yn wir am bob claf nad oedd yn siarad Cymraeg a phob claf a oedd yn siarad Cymraeg heblaw am un, a ddywedodd y gallai weithiau siarad â staff yn ei ddewis iaith.

Mae gan y practis wefan, a oedd yn unol â chanllawiau hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd yn cynnwys manylion y triniaethau deintyddol preifat y mae'n eu darparu, ynghyd â rhestr brisiau. Roedd hefyd yn rhoi arweiniad ar wneud cwyn, manylion tîm y practis, oriau agor a rhifau ffôn cyswllt y tu allan i oriau. Nid oedd y polisi cwynion yn cynnwys manylion cyswllt

yr awdurdod cofrestru yng Nghymru, sef AGIC. Rydym yn argymell bod y wefan yn cael ei diweddaru i adlewyrchu hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod ei wefan yn cael ei diweddaru i gynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod cofrestru yng Nghymru yn ei bolisi cwynion.

## Gofal amserol

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau os oedd ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion ynglŷn â sut y gallai cleifion gael mynediad i ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau yn cael eu harddangos y tu allan i'r practis ac yn y dderbynfa. Roedd yr wybodaeth hefyd yn cael ei darparu ar neges peiriant ateb y practis.

Dywedodd staff wrthym fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon yn ystod ei oriau agor. Pe byddai deintydd yn rhedeg yn hwyr, byddai staff yn hysbysu'r cleifion sy'n aros am unrhyw oedi ac, os yw'n briodol, cynnig ail-drefnu'r apwyntiad.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dangosodd archwiliad o gofnodion cleifion fod cleifion yn cael eu holi am eu hanes meddygol ar adeg eu hymweliad.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur heblaw am un bod y deintydd yn gofyn iddo am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Gwelsom fod mynediad i'r practis yn dda iawn. Roedd ychydig o lethr yn arwain at y brif fynedfa o'r stryd gan alluogi cleifion mewn cadeiriau olwyn i gael mynediad i'r practis yn rhwydd. Roedd y dderbynfa, yr ardal aros, yr ystafell ymgynghori a'r tair ystafell triniaeth ddeintyddol ar y llawr gwaelod a gallai pobl ag anawsterau symudedd gael mynediad iddynt.

Roedd toiled anabl ar y llawr gwaelod a oedd yn darparu cyfleusterau ar gyfer cleifion ag anawsterau symudedd. Roedd ganddo fynediad da a rheiliau llaw i

ddarparu cymorth i'r cleifion oedd ei angen. Byddem yn cynghori'r feddygfa i ystyried gosod larwm yn y toiled.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd mwy na thri chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i leisio pryder neu gŵyn am y gwasanaethau yr oeddent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar waith a oedd yn ymdrin â thriniaeth ddeintyddol breifat yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008[1]. Roedd y polisi yn cynnwys cyfeiriad at yr awdurdod cofrestru yng Nghymru, sef AGIC. Roedd y polisi cwynion hefyd wedi'i gynnwys yn y ffolder gwybodaeth i gleifion a leolir yn yr ystafell aros ac a oedd yn cael ei arddangos yn y dderbynfa.

Roedd gan y practis broses a system ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion ffurfiol a dderbynnir ganddo. Dywedodd staff wrthym eu bod hefyd yn cofnodi'r pryderon ar lafar/anffurfiol a dderbyniwyd ar nodiadau'r cleifion. Argymhellir bod adborth cleifion yn cael ei gadw ar wahân i'w nodiadau meddygol a'i fod yn cael ei gofnodi mewn ffolder ar wahân gyda'i gilydd, a lle bo hynny'n briodol, gydag ymateb y practis a neu gamau gweithredu. Byddai hyn yn galluogi'r practis i nodi unrhyw themâu ailadroddol. Roedd y practis yn cofnodi awgrymiadau cleifion mewn llyfr nodiadau a oedd yn cael ei gadw yn y dderbynfa. Roedd cleifion hefyd yn cael eu gwahodd i gyflwyno unrhyw sylwadau neu awgrymiadau mewn blwch awgrymiadau yn y dderbynfa. Roedd awgrymiadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac roeddent yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff mewn perthynas â rhoi cynlluniau ar waith, er enghraifft, ar gyfer gosod rheiliau llaw yn y toiled i gleifion.

Fel rhan o arolygiad cysylltiedig Denplan yn 2017 cynhaliwyd arolwg cleifion a rhoddwyd dadansoddiad manwl o ymatebion cleifion i'r practis. Gwnaethom awgrymu fod y practis yn ystyried rhoi gwybod i’r cleifion am ganlyniad unrhyw

[1] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

awgrymiadau ac arolygon. Dywedodd mwyafrif y cleifion eu bod yn cael eu holi am eu barn am y gwasanaeth a ddarperir yn y practis deintyddol, er enghraifft, trwy holiaduron cleifion.

Mae'r practis hefyd yn adolygu sylwadau sy'n cael eu cyflwyno drwy’r rhyngrwyd.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy’n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Gwnaethom nodi fod cyfleusterau clinigol yn weledol lân ond bod angen i staff sicrhau nad oes llwch ar unrhyw un o'r arwynebau uchel.

Roedd cyfleusterau clinigol yn dda ac roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel ac roedd tystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Mae angen i'r practis sicrhau eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel, gyda'i gilydd.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn cael eu cwblhau yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion yn ystod pob ymweliad.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis, a phobl sy'n ymweld â'r practis.

Ni chafodd unrhyw bryderon eu mynegi gan y cleifion a gwblhaodd holiadur ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion a lenwodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol, yn eu barn nhw, yn lân iawn.

Yn ôl pob golwg, roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Ar y cyfan, roedd yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol yn lân ond ar adeg yr arolygiad roedd peth llwch ar yr holl arwynebau uchel. Roedd y nyrsys deintyddol yn gyfrifol am lanhau'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol ac rydym yn argymell y dylid cynnwys glanhau arwynebau uchel yn yr amserlenni glanhau dyddiol ar

gyfer pob ystafell triniaeth ddeintyddol. Roedd offer a chyfarpar yn cael eu storio'n briodol. Dywedwyd wrthym fod gwelliannau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol a'r ystafell ddadheintio yn mynd rhagddynt, er enghraifft gosod lloriau newydd. Roedd yr ardaloedd anghlinigol yn lân ac yn daclus. Roedd dewis o deganau yn ardal aros y plant ac rydym yn argymell y dylid glanhau'r rhain fel rhan o'r amserlen lanhau ddyddiol.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy'n cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio’n ddiogel yn y practis. Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad, a gwnaethom nodi eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn. Roedd y cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys yn weladwy.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol), gwastraff nad yw'n beryglus (cartref) a gwastraff amalgam, yn ddiogel.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, mae'n rhaid i gyflogwyr naill ai atal neu leihau datguddiad staff i sylweddau sy'n niweidiol i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' a dalenni data diogelwch perthnasol ac roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth am sylweddau sy'n 'beryglus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar gyfer defnydd diogel mewn perthynas â sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis.

Roedd gan y practis lyfr Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR), a oedd yn cael ei gwblhau pan oedd damwain.

Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i sicrhau bod amserlenni glanhau'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol yn cynnwys ardaloedd arwyneb uchel, a bod amserlen lanhau'r ardaloedd aros yn cynnwys teganau plant a bod y rhain yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[2] Byddem yn argymell fod sinc bwrpasol ar gyfer hylendid dwylo yn cael ei gosod. Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Yn ystod yr arolygiad, cafodd ardaloedd glân a brwnt yr "ystafell frwnt" eu newid o gwmpas a oedd yn gwella'r broses o lanhau offerynnau. Cynhaliwyd dull glanhau cyn sterileiddio a dull sterileiddio yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru a chanllawiau'r gwneuthurwr. Gwelsom fod y llyfrau cofnodi priodol ar gyfer gwirio'r cyfarpar sterileiddio yn cael eu cynnal a bod polisi rheoli heintiau ar waith.

Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol pan oeddent yn gweithio yn y mannau dadheintio.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i osod trydydd sinc yn yr ystafell ddadheintio at ddibenion golchi dwylo.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ddelio ag argyfyngau cleifion, gan gynnwys polisi dadebru.

Mae gan ddarparwyr gofal iechyd rwymedigaeth i ddarparu sgiliau dadebru yn achos ataliad cardio-resbiradol ac i sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi a'u diweddaru'n rheolaidd i lefel hyfedredd sy'n briodol i'w swyddogaeth[3]. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y flwyddyn ddiwethaf ar sut i fynd i'r

---

[2] Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[3] https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-dental-care-quality-standards-for-cpr/

afael ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y practis y cyffuriau a'r offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (y DU)[4]. Cafodd y rhain eu storio'n ddiogel ond roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio mewn rhan wahanol o'r practis i'r offer brys. Gallai hyn achosi dryswch ar adeg argyfwng meddygol a byddem yn argymell eu bod yn cael eu storio gyda'i gilydd lle y gellid cael mynediad atynt yn rhwydd. Rydym hefyd yn argymell bod y cyffuriau brys yn cael eu cadw mewn cynwysyddion hawdd eu cyrraedd ac wedi'u labelu'n glir, er enghraifft asthma ac anaffylacsis. Gwnaethom nodi bod gan y practis system ar waith i wirio bod cyffuriau a chyfarpar brys o fewn eu dyddiad ac yn barod i'w defnyddio.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i sicrhau bod yr offer a'r cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel gyda'i gilydd.

Y practis i storio cyffuriau brys mewn cynwysyddion priodol wedi'u labelu, un ar gyfer pob argyfwng meddygol posibl.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy’n agored i niwed a'u bod yn cynnwys y manylion cyswllt ar gyfer yr asiantaethau diogelu perthnasol. Ac eithrio'r deintydd cyswllt, roedd yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn yn y practis. Roedd gan staff clinigol a rhai nad ydynt yn glinigol dystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gydag un nyrs ddeintyddol yn disgwyl canlyniad ei chais.

---

[4] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu

Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth ddeintyddol yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol yn gweithio'n dda ac roedd y mannau a reolir wedi cael eu nodi. Gwelsom ddogfennau'n dangos bod y peiriannau pelydr-x yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal a'i chadw ac yn gynhwysfawr, gan gynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Yn unol â gofynion Rheoliadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol [5] ac Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)[6] (IR (ME) R) 2000 roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth fod gan y practis raglen o asesiadau risg ar waith a oedd yn cael eu cynnal yn rheolaidd mewn perthynas â nifer o feysydd, gan gynnwys y practis ei hun ac anafiadau gan eitemau miniog. Yn ogystal, mae'r practis yn ymgymryd â'r Adolygiad Cymheiriaid Archwilio Clinigol[7] ar y

---

[5] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[6] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

[7] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/carro

cyd â Deoniaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys ystod o archwiliadau, gan gynnwys hanes meddygol, sicrhau ansawdd, amserau aros a radiograffau.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gofnodion electronig, a gwnaethom nodi bod y rhain yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Gwnaed copïau wrth gefn o'r ffeiliau electronig yn rheolaidd.

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, gan gynnwys polisi diogelu data, a pholisi rhyddid gwybodaeth.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion. Yn gyffredinol, canfuom fod y dull o gadw cofnodion a darparu gofal i gleifion o ansawdd da. Canfuom mewn rhai achosion fod hepgoriadau, sef nad oedd yr holl hanesion meddygol na chynlluniau triniaeth yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai'r practis sicrhau bod deintyddion yn cydlofnodi holl hanesion meddygol a chynlluniau triniaeth yn ystod pob ymweliad claf.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.*

Canfuom dystiolaeth o arweinyddiaeth a llinellau atebolrwydd da.

Canfuom fod gan y practis systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y practis a'r staff yn cael eu cefnogi ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o safon uchel i gleifion.

Roedd gan y practis ystod gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol a gweithdrefnau rheoli cadarn ar waith er budd staff, gan gynnwys arfarniadau staff blynyddol, cyfarfodydd staff rheolaidd a sesiynau cinio a dysgu.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sydd yn berchen ar NJS. Darperir rheolaeth o ddydd i ddydd gan reolwr y practis gyda chymorth yr uwch nyrs a fydd yn ymgymryd â'r rôl pan fydd y rheolwr presennol yn ymddeol. Canfuom fod y practis yn cael ei arwain yn dda a bod yr holl staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda gyda dull da iawn o gadw cofnodion ym mhob maes. Gwelsom fod amrediad eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Roedd gan bob un o'r polisïau heblaw am un ddyddiadau adolygu ac roedd darpariaeth hefyd i staff ddangos tystiolaeth eu bod wedi darllen y polisïau. Byddem yn cynghori'r practis i gynnwys dyddiadau adolygu ar bob polisi.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn meddu ar yswiriant indemniad priodol. Gwelsom fod y tystysgrifau cofrestru ar gyfer pob deintydd yn cael eu harddangos yn glir fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Roedd

tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y practis yn cael ei harddangos yn y dderbynfa.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Dywedodd staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis a gwelsom gydberthynas dda rhwng holl staff y practis. Gwnaethom nodi bod gan bob aelod o staff gytundeb gwaith a gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff fod rhaglen sefydlu ar waith yn y practis. Roedd gan y practis raglen gadarn o arfarniadau staff a oedd yn cael eu cynnal yn flynyddol.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y mwyafrif o staff wedi mynychu hyfforddiant ar ystod o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddogaethau a'u bod yn bodloni'r gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus. Dywedwyd wrthym y byddai trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer un nyrs ddeintyddol (a oedd ar absenoldeb mamolaeth) i dderbyn hyfforddiant priodol ar ôl iddi ddychwelyd i'r gwaith.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd practis ddwywaith y mis sy'n cynnwys staff clinigol a rhai nad ydynt yn glinigol. Yn dilyn pob cyfarfod, caiff cofnodion eu drafftio a'u dosbarthu i'r holl staff. Mae'r practis hefyd yn cynnal sesiynau Cinio a Dysgu i staff ar nifer o bynciau gan gynnwys triniaethau deintyddol a hylendid y geg.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar bob aelod o staff clinigol a rhai nad ydynt yn glinigol ac eithrio un nyrs ddeintyddol a oedd wedi cyflwyno cais cyn yr arolygiad.

Mae angen imiwneiddio staff clinigol rhag Hepatitis B[8] er mwyn diogelu'r cleifion a'u hunain rhag heintiau. Nid oedd y practis yn gallu darparu prawf o imiwnedd ar gyfer un nyrs ddeintyddol. Rydym yn argymell bod y practis yn cael cadarnhad bod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag Hepatitis B.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant perthnasol a'u bod yn ei gwblhau i'w galluogi i fodloni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus.

Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag Hepatitis B.

[8] Cylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 086

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: NJS Dental

## Dyddiad yr arolygiad: 9 Ebrill 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion sicrwydd ar unwaith yn yr arolygiad hwn | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: NJS Dental

## Dyddiad yr arolygiad: 9 Ebrill 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r practis sicrhau bod ei wefan yn cael ei diweddaru i gynnwys manylion cyswllt ar gyfer yr awdurdod cofrestru yng Nghymru yn ei bolisi cwynion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 15 | Mae'r wefan yn cael ei diweddaru | Pauline Jones | 1-2 wythnos |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Y practis i sicrhau bod amserlenni glanhau'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol yn cynnwys ardaloedd arwyneb uchel a bod amserlen lanhau'r ardaloedd aros yn cynnwys teganau | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | Mae'r amserlenni glanhau wedi'u newid, mae hyn yn cynnwys glanhau dwfn ar bob arwyneb uchel o leiaf unwaith yr wythnos. | Pauline Jones | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| plant a bod y rhain yn cael eu gwirio'n rheolaidd. | Rheoliad 14 (1) (d) | | | |
| Y practis i osod trydydd sinc yn yr ystafell ddadheintio at ddibenion golchi dwylo. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Y trydydd sinc i'w gosod ar gyfer golchi dwylo yn yr ardal lân | Pauline Jones | 6 – 12 mis |
| Y practis i sicrhau bod yr offer a'r cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel gyda'i gilydd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (2)<br>Cyngor Dadebru'r DU | Y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel gyda'i gilydd yn ein cwpwrdd Stoc | Pauline Jones | Ar unwaith |
| Y practis i storio'r cyffuriau brys mewn cynwysyddion priodol wedi'u labelu, un ar gyfer pob argyfwng meddygol posibl. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (2)<br>Cyngor | Mae'r cyffuriau brys yn cael eu storio mewn cynwysyddion wedi'u labelu'n briodol | Pauline Jones | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Dadebru'r DU | | | |
| Y practis i sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol. | Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Datblygiad Proffesiynol Parhaus | Mae'r holl staff wedi cwblhau eu hyfforddiant diogelu | Pauline Jones | Ar unwaith |
| Yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, dylai’r practis sicrhau bod deintyddion yn cydlofnodi'r holl hanesion meddygol a chynlluniau triniaeth ym mhob ymweliad claf. | Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol: Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol<br><br>Safon 4.1 | Yr holl hanesion meddygol a chynlluniau triniaeth yn cael eu cydlofnodi yn ystod pob ymweliad | Dr Nick Sheehan | ar unwaith |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Dylai'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant perthnasol a'u bod yn ei gwblhau i'w galluogi i fodloni eu gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus. | Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Datblygiad Proffesiynol Parhaus | Mae'r holl staff wedi ymuno â Isopharm i sicrhau eu bod yn gyfredol o ran gofynion datblygiad proffesiynol parhaus | Pauline Jones | Ar unwaith |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r practis gael cadarnhad fod gan yr holl staff clinigol yr imiwnedd angenrheidiol rhag Hepatitis B. | Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol: Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol<br><br>Safon 1.5.2 | Aros am ganlyniadau profion ar gyfer un aelod o staff | Pauline Jones | 1-3 wythnos |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Pauline Jones**

**Swydd: Rheolwr y practis**

**Dyddiad: 15.05.2018**